

**Beirniadaeth Adolygu Ffilm Urdd 2020**  
**352 – Adolygiad o unrhyw ffilm BI 7 8 a 9**  
**Beirniad – Dion Wyn Hughes**

**1af-352/8 (Morddwyd Tyllion)**

Mae Morddwyd Tyllion wedi creu adolygiad rhyfeddol o gytbwys am 'Life of Pi'. Mae'n amlwg i'r ffilm greu argraff mawr wrth i'r adolygydd drafod llwyddiant stori, techneg ac effaith y ffilm. Ond fel pob adolygydd da, mae Morddwyd Tyllion hefyd yn barod i sôn am wendidau'r ffilm wrth gymharu'r ffilm â'r llyfr gwreiddiol. Mae eu dealltwriaeth o neges a symbolaeth y ffilm yn dangos llygad feirniadol trwyadl wedi'i gyflwyno'n huawdl. Yn llawn ffeithiau diddorol ac ystyr dwfn. Maent yn haeddiannol iawn o'r wobwr gyntaf.

**2il-352/7 (Mafon)**

Mae Mafon yn dechrau gyda chyflwyniad blasus i 'A Christmas Prince'. Mae'r adolygiad wedi'i strwythuro'n addas ar gyfer darparu digon ond nid gormod o wybodaeth i'r gynulleidfa. Braff cael trafodaeth o sawl elfen o'r broses o wneud ffilm; o'r gwaith camera i'r gwisgoedd. Yn wir, mae'n rhoi ffocws ar arddull a thechneg ac mae hyn yn dangos llygad craff. Mae'r drafodaeth gynhwysfawr am y cymeriadau yn dangos eu dylanwad ar yr adolygydd. Adolygiad da - cytbwys iawn sy'n gadael y darllenydd eisiau mwy.

**3ydd-352/17 (Oreo)**

Mae adolygiad Oreo o'r ffilm Gymraeg 'Y Sycas' yn bersonol iawn ac mae'n amlwg bod y broses o weld ffilm yn mynd o'r set i'r sgrîn yn rhywbeth sydd wedi creu argraff. Braff hefyd yw gweld balchder Oreo yn y stori wir yma am Gymru ac mae ôl ymchwil trylwyr i'r adolygiad. Dyma waith sy'n rhannu barn yn fanwl ac yn eglur a diolch hefyd am ddangos cydnabyddiaeth i waith tîm creadigol y ffilm. Gwaith da.